
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Bae Limeslade i Fae Caswell, Gŵyr

## Gyda'i gerfluniau glan môr a'i glogwyni geirwon mae hwn yn ddiwrnod allan hwyliog i'r teulu cyfan.

***"Mae hon yn daith gerdded hwyl i'r teulu oll ei mwynhau gyda'i gilydd ac i ddarganfod sut y gall arfordir dramatig Cymru ysbrydoli artistiaid lleol."***

**TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Maes parcio Bae Limeslade/Maes parcio Bae Caswell.

### Pellter:

3 milltir/5km.

### Ar hyd y ffordd...

Wrth ymuno â'r llwybr yn Limeslade, efallai y cewch gipolwg ar forloi'n torheulo ar y creigiau wrth ymyl y dŵr.

Ychydig ymhellach ar hyd y llwybr cewch weld Cerflun y Pysgodyn sy'n Llamu, rhan o lwybr celf arfordirol gan grŵp o'r enw Sculpture Art and Education by the Sea. Mae'r cerflun wedi ei gerfio o dderw lleol sydd wedi ei adfer, ac mae'n darlunio cylch parhaus o ddŵr â macrell sy'n llamu. Edrychwch drwy'r ffenest yng nghanol y cerflun i weld tirwedd drawiadol yr arfordir, cyn parhau ar eich taith.

Yna mae'r llwybr yn pasio Bae Langland â'i res nodweddiadol o gytiau traeth gwyrdd a gwyn – y lle perffaith i stopio am luniaeth hanner ffordd wrth i chi wylio'r syrffwyr lleol yn reidio'r tonnau.

O Langland mae Llwybr yr Arfordir yn ymdroelli o gwmpas clogwyni creigiog ar ei ffordd i Fae Caswell. Yma mae cerflun arall sy'n dangos pysgod a byrddau syrffio naill ochr i fainc. Mae'r ddwy ran wedi eu cerfio â llaw o dderw wedi ei adfer ac maen nhw wedi eu haddurno â phaneli metal a chastiau o gregyn a ddarganfuwyd ar y traeth.

### Angen gwybod:

Mae toiledau, caffis a thoiledau cyhoeddus ar ddau ben y daith gerdded. Mae caffi ym Mae Langland hefyd, tua hanner ffordd.

Mae gwasanaethau bws lleol yn cysylltu Abertawe gyda Limeslade a Bae Caswell.

Am ragor o wybodaeth am y celf sydd ar Lwybr yr Arfordir, lawrlwythwch y map Cerfluniau ar Lwybr Arfordir Cymru o wefan Art and Education by the Sea

www.artandeducationbythesea.co.uk/Sculpture%20on%20the%20coast.htm